Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# CO22212 Inverness Place (Croesfan Sebra Ddyrchafedig)

# Adroddiad Ymgynghoriad

# Chwefror 2026

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig Cyngor Caerdydd i ymgymryd â chynllun gwella priffyrdd sy'n cynnwys cyflwyno croesfan sebra ddyrchafedig ar Inverness Place yn ward Plasnewydd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 10/10/2025 a 31/10/2025.

## Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Gwybodaeth ar Wefan y Cyngor

## Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cafwyd **8** ymateb unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymatebion fel a ganlyn:

**3:**O blaid y cynnig ac wedi darparu sylwadau / awgrymiadau ychwanegol

**3:**Wedi gwrthwynebu a rhoi sylwadau / awgrymiadau ychwanegol.

**2:** Wedi rhoi sylwadau / awgrymiadau ond heb ddweud a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig

## Sylwadau Cefnogol

Derbyniwyd tri sylw yn nodi y byddai'r cynllun arfaethedig yn gwella diogelwch ar y ffyrdd trwy gynorthwyo i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Inverness Place.

## Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig fel y dangosir ar y cynllun atodedig.

**Materion Penodol**

Mae'r materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

| **Mater** | **Ymateb** |
|---|---|
| Cafwyd sylwadau ynghylch a allai mesurau arafu traffig ychwanegol gael eu cyflwyno mewn lleoliadau eraill ar draws yr ardal. | Mae'r cyllid ar gyfer y Cynllun hwn wedi cael ei ddyfarnu gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw arian ychwanegol ar gael tuag at gyflwyno nodweddion ychwanegol ar hyd y llwybr hwn. Mae Inverness Place yn ffurfio rhan o'r cyfyngiad cyflymder dinas eang 20mya a chyngor Llywodraeth Cymru yw na ddylai awdurdodau lleol gyflwyno mesurau arafu traffig ychwanegol fel modd o sicrhau mwy o gydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau 20mya.<br><br>Os oes gan drigolion unrhyw bryderon eraill ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, gallant eu hanfon drwy e-bost i: projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ar gyfer ymchwiliad. |
| Mae pryderon wedi'u codi ynghylch colli lleoedd parcio o gyflwyno'r groesfan sebra ddyrchafedig. | Dim ond nifer fach o leoedd parcio fydd yn cael eu dileu gan y croesfannau sebra dyrchafedig a'r marciau ffyrdd igam-ogam cysylltiedig. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau nad yw cerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan yn cael eu cuddio gan geir wedi'u parcio, a'u bod yn weladwy i yrwyr. Cyfrifoldeb gyrwyr fyddai parcio eu cerbydau lle mae'n ddiogel ac yn gyfreithlon gwneud hynny. |
| Darparwyd awgrymiadau a oedd yn cynnwys dyrchafu cyffordd gyfan Dalcross Street / Inverness Place a hefyd gosod rhwystrau ymwthiol ar gorneli'r cyffyrdd. | Mae'r cyllid a ddyfarnwyd i ni gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno croesfan sebra ddyrchafedig ar Inverness Place. Nid i ddyrchafu cyffordd gyfan Dalcross Street / Inverness Place a gosod rhwystrau ymwthiol ar gyffyrdd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid grant ar ei gyfer (croesfan sebra). Byddai'n costio llawer mwy na chroesfan sebra heb ddarparu'r manteision o ran y gofyniad i gerbydau ildio i gerddwyr. Am y rheswm hwn, ni ellir cefnogi'r dewis arall a awgrymwyd. |
| Derbyniwyd sylwadau yn nodi bod y mwyafrif o gerddwyr yn croesi ar ochr ddeheuol y gyffordd ac felly dylid adleoli'r groesfan sebra arfaethedig ar ochr arall y ffordd (ochr ddeheuol Dalcross Street). | Fel rhan o ddatblygiad cychwynnol y cynllun hwn, cynhaliwyd arolygon cyflymder, llif traffig a cherddwyr i asesu'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer croesfan sebra. Yn ystod oriau brig yr ysgol roedd lefelau tebyg o ymwelwyr ar ochr ogleddol ac ochr ddeheuol y gyffordd â Dalcross Street. Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cynnal arolygon cerddwyr ychwanegol a nododd lefelau tebyg o ymwelwyr yn ystod yr amseroedd hyn. Felly, nid oes unrhyw gyfiawnhad i newid lleoliad y groesfan arfaethedig. |

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi bod pobl yn parcio’n anghyfreithlon o amgylch y gyffordd hon a bod angen mesurau gorfodi ar gyfer y parcio anghyfreithlon hwn. | Mae Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor yn gorfodi'r cyfyngiadau parcio presennol yn rheolaidd, ond dylid cyfeirio unrhyw gais am orfodi'r cyfyngiadau parcio presennol at y Swyddogion Gorfodi Sifil y gellir cysylltu â hwy drwy C2C ar 029 2087 2088. |
| Pryderon ynghylch y goleuadau a fydd yn cael eu cyflwyno gyda'r croesfannau sebra arfaethedig. | Mae'r goleuadau oren sy'n fflachio yn rhan annatod o ddyluniad croesfan sebra, mae hwn yn ddyluniad safonol a ddefnyddir wrth bob croesfan sebra, yn unol â safonau dylunio technegol cenedlaethol. Mae defnyddio 'glôb melyn' wrth groesfan sebra yn ofyniad rhagnodedig fel rhan o gynllun croesfan sebra dan Bennod 6 Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig.<br><br>Gosodir gorchuddion estynedig dros bennau'r goleuadau a fydd yn helpu i leihau faint o olau sy'n dod o ochrau’r goleuadau. |